

Sesiwn Gwrandawriad 16

Monitro a Gweithredu, a Materion Amrywiol

9.30 yb, Dydd Iau 6 Hydref 2016

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Gwynedd a Môn**



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn gan Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i nodi eu hymateb i'r materion a'r pynciau a godwyd gan yr Arolygydd ar gyfer y Gwrandawriad am Fonitro a Gweithredu, a Materion Amrywiol yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Mae'r Datganiad hwn yn ymwneud ag elfennau o'r Cynllun a godwyd gan yr Arolygydd fel materion i'w trafod. Lle bo'n briodol mae'r Datganiad yn edrych ar ac yn croesgyfeirio at y prif ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun megis canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus, yr Asesiad Cynaliadwyedd, y dogfennau cefndir a Phapurau Testun ategol. Rhoddir rhifau cyfeirnod y dogfennau lle y bo'n briodol.

At ddibenion eglurder o fewn y datganiad hwn mae unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi i'r Cynllun Adnau a/neu Newid â Ffocws i'r Cynllun, wedi'i ddangos mewn print trwm **Coch** ac wedi'i thanlinellu. Dangosir unrhyw Newid â Ffocws i'r Cynllun Adnau mewn print **Trwm** wedi'i danlinellu.

Agenda Materion a Phynciau

1 Cyflwyniad

2 Materion Gweithdrefnol

3 Ydy'r Fframwaith Fonitro yn sicrhau bod y Cynllun yn ddigon hyblyg i'w alluogi i addasu os oes newid mewn amgylchiadau ac ydy hi'n darparu canllawiau digonol ar weithredu, cerrig milltir a throthwyon adolygu?

- 3.1 **Ymateb** – yn gyffredinol mae'r Cynghorau yn fodlon bod y fframwaith monitro (a oedd yn destun Newidiadau â Ffocws a gwelliannau mewn ymateb i'r nodyn rhagarweiniol yr Arolygydd i'r Cynghorau ym mis Mai 2016 (DA.002 & DA.010c)), sy'n cynnwys dangosyddion, targedau a sbardunau ar gyfer camau pellach yng nghyswllt pob amcan, yn ffurfio sail ddigonol ar gyfer asesu effeithiolrwydd polisiâu a strategaeth y Cynllun. Mae'r fframwaith ar gyfer monitro sydd wedi'i hymgorffori o fewn Pennod 8 o'r Cynllun yn caniatáu ar gyfer mesur ac asesu effeithiolrwydd y Cynllun. Mae strwythur y fframwaith yn cymryd amcanion y Cynllun fel arweiniad. Cafodd sbardunau eu cynnwys i ddangos lle bydd camau gweithredu yn cael eu hystyried yn angenrheidiol. Mae'r Cynghorau yn ystyried bod pwyntiau sbardun wedi'i amseru'n dda ac yn caniatáu ar gyfer ymateb effeithiol.
- 3.2 Mae'r Cynghorau yn ystyried bod y fframwaith monitro yn darparu digon o eglurder a thryloywder er mwyn caniatáu i'r canlyniadau gael eu cyfleu'n effeithiol drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR).
- 3.3 Mae'r Cynghorau yn ystyried bod strwythur y fframwaith, sy'n seiliedig ar yr amcanion, yn cynrychioli dull syml ond effeithiol. Yn yr un modd, mae'r fframwaith yn glir ynghylch y polisiâu perthnasol, y targedau y mae wedi'u sefydlu i sicrhau y bodlonir y nodau a dangosyddion perthnasol a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at y targedau hyn.
- 3.4 Er gwaethaf y pwyntiau hyn, mae'r Cynghorau wedi cydnabod ym mhob Datganiad y gellir gwneud diwygiadau er mwyn gwella ac atgyfnerthu'r fframwaith ac yn hyn o beth mae'r Cynghorau yn barod i weithio gydag Arolygwyr a Llywodraeth Cymru i gyflawni strwythur monitro mwy cadarn os bernir bod angen gwneud hynny.

4 Materion yn codi o sesiynau gwrandawriad blaenorol neu o ddarllen yr Arolygwyr o'r Cynllun, y dystiolaeth neu sylwadau a gyflwynwyd

5 Unrhyw waith arall i'w gyflwyno gan y Cynghorau, neu drefniadau gweinyddol eraill

6 Unrhyw faterion eraill